

AELODAU'R CYHOEDD YN SIARAD YNG NGHYFARFODYDD Y PWYLLGORAU CRAFFU

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cydnabod bod modd i'w breswylwyr wneud cyfraniad pwysig at ei swyddogaeth graffu a bod yn ffynhonnell wybodaeth werthfawr. Felly mae'r Cyngor yn annog ei holl breswylwyr i gymryd rhan weithredol yn y broses Graffu yn Rhondda Cynon Taf.

Mae'r Canllaw yma yn darparu gwybodaeth am yr hyn y mae modd i aelodau'r cyhoedd ei ddisgwyl wrth fynd i gyfarfod un o'r Pwyllgorau Craffu.



CYNNWYS

Tudalennau

1. Beth yw Craffu?
2. Ble a phryd mae'r Pwyllgorau yn cwrdd?
3. Sut mae modd i mi sicrhau bod fy 'llais' yn cael ei glywed?
4. Pwy sy'n cael siarad?
5. Am faint o amser caf i siarad?
6. Am beth caf i siarad yn y cyfarfod?
7. Paratoi'ch sylwadau ar gyfer y Pwyllgor
8. Presenoldeb yn y cyfarfod
9. Pryd bydda i'n siarad?
10. Dogfennau ategol neu gymhorthion gweledol
11. Ar ôl annerch y Pwyllgor
12. Sut ydw i'n cofrestru i siarad?
13. Sut ydw i'n cofrestru i siarad yn Gymraeg?
14. Cyflwyno sylwadau ysgrifenedig
15. Gwybodaeth Ychwanegol



1. Beth yw Craffu?

Mae proses Graffu'r Cyngor yn rhoi cyfle i Aelodau etholedig (Cynghorwyr) edrych ar y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu ac i ofyn cwestiynau am sut mae penderfyniadau wedi'u gwneud. Rhaid i'r Pwyllgorau Craffu hefyd wneud trefniadau i wrando ar safbwyntiau preswylwyr lleol a'r gymuned. Un o rolau'r Pwyllgorau Craffu yw ystyried y safbwyntiau hynny wrth ystyried y mater perthnasol ac, os ydy'r Pwyllgor yn ystyried hynny'n briodol, trosglwyddo'r safbwyntiau hynny i Gabinet y Cyngor i'w hystyried.

Mae'n bwysig eich bod chi'n effro i'r ffaith fod y Pwyllgorau Craffu ddim yn ymdrin ag ymholiadau, pryderon neu gwynion unigol. Dylech chi hefyd gofio bod cyfarfod Pwyllgor Craffu yn gyfarfod sy'n cael ei gynnal yn gyhoeddus ond dydy e **ddim** yn Gyfarfod Cyhoeddus.

Mae gan y Cyngor bedwar Pwyllgor Craffu:-

Y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

Mae'r Pwyllgor yma'n cydlynu gwaith y tri Phwyllgor Craffu canlynol ac yn sicrhau bod gwaith pob un o'r Pwyllgorau hyn yn effeithiol. Mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'n gyfrifol am gymeradwyo'r Rhaglenni Gwaith sydd wedi'u datblygu gan y Pwyllgorau Craffu i sicrhau bod modd cyflawni'r rhaglenni hynny a'u bod yn gydlynol ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau. Yn ogystal â hyn, mae'n cyflawni'r swyddogaeth Trosolwg a Chraffu mewn perthynas â phob thema drawsbynciol 'Cyngor cyfan' sy'n berthnasol i gylchoedd gorchwyl y Pwyllgorau Craffu eraill. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am ddelio â phob achos sy'n cael ei 'Alw i Mewn' (o dan Reolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu y Cyngor).

Mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'n gyfrifol am graffu ar adroddiadau cyflawniad chwarterol / adroddiadau eithrio (cyflawniad ariannol a gweithredol); y broses ymgynghori ar gyfer y gyllideb refeniw flynyddol; gofynion statudol o ran adrodd ar gyflawniad, a monitro gwaith gweithredu penderfyniadau cynllunio ariannol tymor canolig. Mae modd gweld cylch gorchwyl y Pwyllgor [yma](#):





Addysg a Chynhwysiant

Mae'r Pwyllgor yma'n gyfrifol am ganolbwyntio ar Addysg ac Ysgolion yn y Fwrdeistref Sirol trwy graffu ar ddarpariaeth addysg i blant a phobl ifainc 3-19 oed, yn ogystal â'r gwasanaethau, sydd wedi'u darparu gan y Cyngor, y mae pobl ifainc yn manteisio arnyn nhw yn ein cymunedau. Mae'r Pwyllgor yn cynnal gwaith craffu ar Gonsortiw Canolbarth y De sy'n cyflawni agweddau ar wasanaethau gwella ysgolion, wedi'u comisiynu gan bum awdurdod lleol (Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Bro Morgannwg a Rhondda Cynon Taf) er mwyn darparu gwasanaeth gwella ysgolion sy'n herio, monitro ac yn cefnogi ysgolion i wella safonau. Mae modd gweld y cylch gorchwyl [yma](#).

Gwasanaethau Cymuned

Mae'r Pwyllgor yma'n gyfrifol am ganolbwyntio ar y gwasanaethau sydd wedi'u darparu gan y Cyngor sy'n cefnogi lechyd a Lles ein cymunedau. Mae'n ystyried gwasanaethau cymdeithasol i oedolion, yn ogystal â'r holl ffactorau eraill sy'n cyfrannu at lechyd a Lles y Fwrdeistref Sirol, megis Gwasanaethau Hamdden a Gwasanaethau lechyd a Diogelwch y Cyhoedd. Hwn yw Pwyllgor Troseddau ac Anhrefn dynodedig y Cyngor (yn unol ag Adran 19 a 20 o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006). Mae modd gweld y cylch gorchwyl [yma](#).

Materion yr Hinsawdd, Ffyniant a Gwasanaethau Rheng Flaen

Mae'r Pwyllgor yma'n gyfrifol am graffu ar waith cyflawni Gwasanaethau Cyhoeddus ar draws ystod o wasanaethau'r Cyngor a'r sector cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys Gwasanaethau Rheng Flaen sydd wedi'u darparu gan y Cyngor, gan gynnwys Gwastraff a'r Priffyrdd. Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am graffu ar sut mae'r Cyngor yn ymateb i'r argyfwng hinsawdd ac yn lleihau ei ôl troed carbon. Mae hefyd yn ystyried meysydd sy'n cyfrannu at ffyniant, megis Datblygiad Economaidd, Adfywio a Thwristiaeth. Mae modd gweld y cylch gorchwyl [yma](#).



2. Ble a phryd mae'r Pwyllgorau yn cwrdd?

Mae pob un o bedwar Pwyllgor Craffu y Cyngor yn cyfarfod tua 8 gwaith y flwyddyn. Mae'r cyfarfodydd yn cychwyn am 5pm (ac eithrio cyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, wrth ddelio ag achosion sydd wedi'u 'Galw i Mewn' gan fod y rhain yn gyfarfodydd 'arbennig' ac yn digwydd ar amser y bydd y Cadeirydd yn ei bennu). Mae cyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu'n cael eu cynnal ar ffurf hybrid (yn amodol ar ddisgresiwn y Cadeirydd). Mae hyn yn golygu bod modd i gyfranogwyr fynd i Siambr y Cyngor neu ymuno â'r cyfarfod ar-lein (Zoom). Mae'r holl gyfarfodydd yn cael eu ffrydio'n fyw er mwyn i'r cyhoedd eu gwyllo nhw.

Mae rhestr o holl gyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu ar gyfer blwyddyn bresennol y Cyngor ar gael ar wefan y Cyngor trwy'r ddolen ganlynol:-

[Pori Cyfarfodydd, 2023 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf \(modern.gov.co.uk\)](http://modern.gov.co.uk)

3. Sut mae modd i mi sicrhau bod fy 'llais' yn cael ei glywed?

Mae dwy ffordd i'ch llais gael ei glywed mewn Pwyllgor Craffu. Cewch chi ddod i Siambr y Cyngor neu ymuno â'r cyfarfod ar-lein trwy'r plattform y mae'r Cyngor yn ei ddefnyddio, 'Zoom'. Ar ôl i chi ofyn i siarad mewn cyfarfod, byddwch chi'n cael cyfarwyddiadau clir ar sut i ymuno â'r cyfarfod, a hynny wyneb yn wyneb neu ar-lein (Gweler adran 13 'Sut ydw i'n cofrestru i siarad?').

Fel arall, bydd modd i chi gyflwyno sylwadau ysgrifenedig os bydd yn well gennych. (Gweler adran 15 'Sylwadau Ysgrifenedig').

4. Pwy sy'n cael siarad?

Mae gan unrhyw un sy'n byw neu'n gweithio yn Rhondda Cynon Taf ac sydd wedi cofrestru ymlaen llaw yr hawl i siarad mewn cyfarfod wedi'i drefnu o un o Bwyllgorau Craffu'r Cyngor (gan gynnwys cyfarfodydd "Galw i Mewn" y mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn eu cynnal).





Dim ond dau siaradwr sy'n cael siarad ar bob eitem ar yr agenda, ac mae gyda'r Cadeirydd ddisgresiwn i ganiatáu i ragor o bobl siarad os yw'n teimlo ei fod yn briodol gwneud hynny.

Os bydd rhywun o dan 16 oed yn dymuno siarad mewn cyfarfod o Bwyllgor Craffu, bydd trefniadau'n cael eu gwneud i'r unigolyn fod yng nghwmni oedolyn.

5. Am faint o amser caf i siarad?

Ar gyfer pob eitem ar yr agenda, mae modd neilltuo uchafswm o 10 munud o amser siarad. Bydd siaradwyr unigol yn cael siarad am 5 munud ar bob eitem ar yr agenda.

Mae gan y Cadeirydd ddisgresiwn i ofyn i'r siaradwr orffen siarad cyn i'r amser yma ddod i ben, os yw'r Cadeirydd o'r farn bod y siaradwr yn gwneud unrhyw sylwadau sy'n ymddangos yn ddifenyddol, yn sarhaus neu'n amherthnasol i'r eitem sy'n cael ei thrafod.

6. Am beth caf i siarad yn y cyfarfod?

Rhaid i aelod o'r cyhoedd siarad ar yr eitem y mae wedi'i gofrestru i siarad amdani - ni chaiff fynd i'r afael ag eitemau eraill ar yr agenda neu fusnes amherthnasol.

Gofynnwn i chi sicrhau:

- Bod eich sylwadau yn glir ac yn gryno ac yn cysylltu'n uniongyrchol â'r adroddiad rydych chi wedi gofyn i gael siarad amdano;
- Eich bod chi'n osgoi ailadrodd pwyntiau sydd eisoes wedi'u gwneud gan siaradwyr cyhoeddus eraill;
- Eich bod chi'n cyfyngu'ch barn i'r adroddiad a'ch bod chi'n tynnu sylw at sut mae modd i'r adroddiad effeithio ar ddarparu gwasanaethau i grwpiau penodol o ddinasyddion yn Rhondda Cynon Taf; ac
- Nad yw eich sylwadau yn ddifenyddol, yn gwahaniaethu neu'n cynnwys iaith sarhaus.



Efallai bydd gofyn i siaradwyr egluro unrhyw un o'u sylwadau, yn ogystal â derbyn cwestiynau gan yr Aelodau. Mae'n bwysig nad yw siaradwyr cyhoeddus yn dadlau ag Aelodau'r Pwyllgor.

7. Paratoi'ch sylwadau ar gyfer y Pwyllgor

Mae hawl y cyhoedd i siarad yn berthnasol i bob eitem ar yr agenda ac eithrio'r canlynol:

- Ymddiheuriadau, Datganiadau o Fuddiant a Chofnodion;
- Eitem ar yr agenda sydd wedi'i thynnu'n ôl;
- Unrhyw eitem ar yr agenda nad yw'n cynnwys adroddiad ysgrifenedig;
- Eitem ar yr agenda y mae'r Cadeirydd wedi arfer ei ddisgresiwn i dynnu'n ôl hawl y cyhoedd i siarad amdani; a
- Pan fo eitemau cyfrinachol / eithriedig yn cael eu trafod gan y Pwyllgor Craffu, bydd y Cadeirydd yn gofyn i bob aelod o'r wasg a'r cyhoedd adael yr ystafell gyfarfod/y cyfarfod ar-lein.

Dydy'r hawl i siarad ddim yn cynnwys yr hawl i ofyn unrhyw gwestiynau i unrhyw Aelod Etholedig neu Gyfetholedig, Swyddogion y Cyngor, unigolion sydd wedi'u gwahodd neu unrhyw siaradwr arall.

8. Presenoldeb yn y Cyfarfod

Dylai aelodau'r cyhoedd sydd wedi cofrestru i siarad gyrraedd y Siambr/ymuno â'r cyfarfod 15 munud cyn dechrau'r cyfarfod a dylen nhw roi gwybod i Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd eu bod nhw wedi cyrraedd.

Os byddwch chi'n dod i Siambr y Cyngor, bydd Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd yn cwrdd â chi ac yn rhoi sedd briodol i chi. Bydd y Cadeirydd yn gofyn i chi annerch y Pwyllgor ar yr adeg briodol.

Os byddwch chi'n ymuno â'r cyfarfod ar-lein, bydd swyddog y Cyngor yn cysylltu â chi drwy e-bost neu dros y ffôn er mwyn rhoi'r manylion mewngofnodi angenrheidiol i chi. Ni ddylech chi rannu rhif adnabod y cyfarfod na'r cyfrinair gydag unrhyw un arall. Dim ond un person fydd yn gallu ymuno â'r cyfarfod gan ddefnyddio'r manylion yma.





Os ydych chi'n rhannu'r manylion yma, efallai fydd ddim modd i chi ymuno â'r cyfarfod.

Nodwch: os ydych chi'n dewis yr naill opsiwn neu'r llall, rydych chi'n cydsynio i gael eich cynnwys yn y recordiad o'r cyfarfod a fydd yn cael ei rannu ar wefan y Cyngor. Bydd recordiad y cyfarfod yn cynnwys sain a delweddau ohonoch chi a phawb arall yn y cyfarfod. (Gweler isod am ddolen i Hysbysiad Preifatrwydd Corfforaethol y Cyngor:-

Hysbysiad Preifatrwydd Corfforaethol y Cyngor – [Sut rydyn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol – Trosolwg | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf \(rhondda-cynon-taf.gov.uk\)](#)

9. Pryd bydda i'n siarad yn ystod y cyfarfod?

Fel rheol, caiff yr eitemau ar yr agenda y mae siaradwyr cyhoeddus wedi cofrestru i siarad amdany'n nhw eu trafod yn gyntaf a bydd y drafodaeth yn dilyn y drefn ganlynol:

- Swyddog Cyfrifol o'r Cyngor i gyflwyno'r adroddiad;
- Os yw'n berthnasol, yr Aelod o'r Cabinet sy'n dal y portffolio perthnasol yn annerch y Pwyllgor Craffu;
- Aelodau'r Cyhoedd sydd wedi cofrestru i siarad yn gwneud hynny;
- Aelodau etholedig eraill (h.y. nid Aelodau'r Pwyllgor Craffu) yn siarad; ac
- Aelodau'r Pwyllgor Craffu yn siarad.

Bydd siaradwyr cyhoeddus yn cael eu cyflwyno gan y Cadeirydd ar yr adeg briodol a'u hannog i annerch y Pwyllgor.

10. Dogfennau ategol neu gymhorthion gweledol

Er mwyn i Aelodau ystyried unrhyw bwyntiau y mae siaradwyr cyhoeddus yn eu gwneud, rhaid iddyn nhw ddarparu unrhyw wybodaeth/dogfennau ategol ymlaen llaw wrth gofrestru i siarad. Does dim modd cyflwyno unrhyw wybodaeth/dogfennau ychwanegol yn y cyfarfod ei hun.





Os yw siaradwyr yn dymuno llunio cymhorthion gweledol ar ffurf cyflwyniad PowerPoint, yna mae rhaid darparu'r sleidiau hyn ymlaen llaw cyn y cyfarfod.

11. Ar ôl annerch y Pwyllgor

Ar ôl i chi orffen siarad, cofiwch fod modd i Gadeirydd y Pwyllgor a/neu Aelodau'r Pwyllgor ofyn cwestiynau i chi.

Yna bydd y Pwyllgor yn ystyried y sylwadau sydd wedi'u gwneud ac wedyn yn penderfynu a ddylen nhw wneud unrhyw argymhellion i'r Cabinet neu'r Uwch Swyddog gyda chyfrifoldeb dirprwyedig yn seiliedig ar y sylwadau/materion hynny sydd wedi codi, os yw hynny'n briodol.

Yna bydd y Cadeirydd yn rhoi gwybod i chi nad oes unrhyw gwestiynau pellach ac os ydych chi'n dymuno, cewch chi adael y cyfarfod.

12. Sut ydw i'n cofrestru i siarad?

Mae agendâu cyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor, 5 diwrnod clir cyn dyddiad y cyfarfod.

Rhaid i aelodau'r cyhoedd sy'n dymuno siarad roi gwybod i'r Gwasanaethau Democrataidd erbyn 5pm ar y diwrnod gwaith olaf ond un cyn cyfarfod perthnasol y Pwyllgor Craffu.

Rhaid i geisiadau gynnwys manylion yr eitem ar agenda'r Pwyllgor Craffu perthnasol hoffech chi siarad amdani. Rydyn ni'n ymdrin â cheisiadau yn y drefn y maen nhw'n cael eu derbyn.

Byddwn ni'n rhoi gwybod i bawb sydd wedi cofrestru i siarad cyn y cyfarfod os yw eu cais i siarad wedi cael ei dderbyn, naill ai drwy e-bost neu drwy'r rhif ffôn cyswllt maen nhw wedi'i ddarparu.

13. Sut ydw i'n cofrestru i siarad yn Gymraeg?

Rydyn ni'n croesawu unrhyw ohebiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn unol â'r canllawiau (sydd i'w gweld yn adran 12 uchod), os ydych chi am annerch Aelodau'r



Pwyllgor yn Gymraeg, mae'r un broses yn berthnasol, a dylech chi nodi a ydych chi am siarad yn Gymraeg neu'n Saesneg. Bydd cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael yn y cyfarfod os byddwch chi'n dymuno annerch y Pwyllgor trwy gyfrwng y Gymraeg.

14. Sut ydw i'n cofrestru i siarad os oes gyda fi anabledd neu anghenion ychwanegol?

Os oes gyda chi anabledd neu unrhyw anghenion ychwanegol a bod angen cymorth arnoch chi er mwyn cymryd rhan yn ein proses Craffu, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost isod erbyn 5pm ar y diwrnod gwaith olaf ond un cyn cyfarfod y Pwyllgor Craffu perthnasol. Bydd aelod o'n carfan yn hapus i gysylltu â chi i drafod eich anghenion penodol a threfnu'ch cais i siarad.

15. Cyflwyno sylwadau ysgrifenedig

Mae'n bosibl y bydd yn well gennych gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'w darllen gan Gadeirydd y Pwyllgor yn y cyfarfod. Os yw hyn yn wir, rydyn ni'n croesawu sylwadau ysgrifenedig ond rhaid eu cyflwyno erbyn 5pm ar y diwrnod gwaith olaf ond un cyn cyfarfod y Pwyllgor Craffu perthnasol.

Anfonwch sylwadau ysgrifenedig i:

E-bost: craffu@rctcbc.gov.uk

neu drwy'r post:

Uned Busnes y Cyngor
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf,
Y Pafiliynau,
Parc Hen Lofa'r Cambrian,
Cwm Clydach, Tonypany. CF40 2XX

16. Gwybodaeth Ychwanegol

Does dim hawl gan aelodau'r cyhoedd ffilmio na recordio cyfarfodydd ac rydyn ni'n gofyn iddyn nhw beidio â rhannu manylion ymuno'r cyfarfodydd gydag unrhyw un arall.





Dylai siaradwyr roi gwybod i'r Gwasanaethau Democrataidd ymlaen llaw os oes gyda nhw unrhyw anghenion neu ofynion arbennig.

Os oes gyda chi unrhyw gwestiynau am aelodau'r cyhoedd yn siarad mewn cyfarfod, mae croeso i chi gysylltu ag aelod o'n carfan gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost isod:

craffu@rctcbc.gov.uk

